Nanhyfer

Cynllun Gweithredu

Rhan-ariennir prosiect 'Cefnogi Cymunedau' PLANED gan Yr Undeb Ewropeaidd Amcan 1 (EAGGF) a Llywodraeth Cynulliad Cymru drwy gyfrwng Cronfa Adfywio Lleol, Amgylchedd Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru

PLANED

YR UNDEB EWROPEAIDD AMCAN 1 EUROPEAN UNION OBJECTIVE 1 Llywodraeth Cynulliad Cymru Welsh Assembly Government

Environment Wales Amgylchedd Cymru

CYNGOR CEFN GWLAD CYMRU
COUNTRYSIDE COUNCIL FOR WALES

NANHYFER
CYNLLUN GWEITHREDU

CYMUNED NANHYFER

ar y cyd â

PLANED
(Pembrokeshire Local Action Network for
Enterprise and Development)

Cytunwyd Cynllun Gweithredu hwn mewn cyfarfod cyhoeddus ar Tachwedd 2003, yn dilyn dosbarthiad o'r Cynllun Gweithredu Drafft i breswylwyr cymuned Nanhyfer.

Cynnwys **tudalen**

Rhagair a'r Ffordd Ymlaen 3

Cefndir I'r Cynllun Gweithredu 4

Hanes y Gymuned 5

Cynllun Gweithredu:

1. Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol 6
2. Cyfathrebu a Digwyddiadau 6
3. Treftadaeth a Diwylliant 7
4. Yr Amgylchedd, Gwella'r Pentref & Ynni 8
5. Economi Lleol 9
6. Ffyrdd a Trafnidiaeth 10
7. Tai 10

Atodiad 1 - Menter Ffermio Nanhyfer 11-12

Rhagair a'r Ffordd Ymlaen

Nod Cynllun Gweithredu Nanhyfer yw disgrifio materion a syniadau a glustnodwyd gan drigolion a allai, o'u gweithredu dros y blynyddoedd nesaf, wella ansawdd bywyd o fewn y gymuned.

Mae'r bobl a gyfrannodd at y Cynllun Gweithredu yn deall mai'r ffordd orau o fwrw 'mlaen â'r gwaith yw trwy drafodaeth a phartneriaeth gan fod llawer o'r cynigion yn effeithio perchnogaeth tir neu eiddo, diddordebau gwahanol ac amryw ffynonellau cyllid. Er bod rhai o'r cynigion yn gymharol fach, maent yn debyg o fod o fudd sylweddol i wahanol grwpiau o fewn y boblogaeth. Bydd eraill yn cynrychioli projectau mwy a gallent effeithio'r gymuned gyfan.

Y goeden ywen waedlyd enwog.

Cefndir i'r Cynllun Gweithredu

Ym mis Mai 2003, cyfarfu aelodau Cyngor Cymuned Nanhyfer a thrigolion yr ardal â PLANED (Pembrokeshire Local Action Network for Enterprise and Development) er mwyn dechrau llunio Cynllun Gweithredu Cymunedol.

Trefnwyd dau ymarfer Gweledigaeth Cymunedol yn Nanhyfer ym mis Mehefin er mwyn nodi cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a sgiliau o fewn y gymuned. Wedyn cynhaliwyd cyfarfodydd Cynllunio Gwaith gyda'r nod o baratoi'r Cynllun Gweithredu Drafft hwn i'w ddosbarthu i'r gymuned.

Derbyniwyd gwybodaeth bellach wrth drefnu ymarfer "Mur Syniadau" yn sioe Nanhyfer ar 6 Awst 2003 – ymgorfforwyd y cyfraniadau o fewn y Cynllun Gweithredu.

Hanes y Gymuned

Mae pentref Nanhyfer yn gorwedd oddi ar briffordd A487 rhwng Abergwaun ac Aberteifi, ac mae'n dyddio o'r bumed ganrif ôl Crist. Y prif adeilad yw'r eglwys fawreddog ac mae'r pentref hefyd yn enwog am fod ar lwybr pererindod Tyddewi (ar un pryd ystyriwyd tair pererindod i Dyddewi yn gyfwerth ag un i Rufain). Mae adfail megalithig enwog, Pentre Ifan, ychydig filltiroedd o'r pentref.

Yn lleol mae'r busnesau'n cynnwys tafarn Trewern Arms, ffermydd, garej, fferm wyddau, gardd farchnad, clwb gollf, meithrinfa, ystafell de a café. Mae llwybr merlota ar hyd yr afon hyd at bentref Felindre, a thu hwnt i hwnnw atyniad twristiaid Castell Henllys sy'n dyddio o'r oes efydd.

Mae pysgota gwych ar afon Nyfer ac mae'n gartref i amrywiaeth o fywyd gwyllt, yn cynnwys dyfrgwn a crychyddion.

Yr Eglwys

Sefydlwyd eglwys Sant Brynach gan y Cristnogion Celtaidd ac mae'n cynnwys cerrig engrafedig o'r chweched ganrif (un yn Lladin ac Ogam); yn y fynwent mae croes Geltaidd enfawr a choeden ywen waedlyd enwog. Gerllaw, nodir y llwybr i Dyddewi gyda chroes wedi'i naddu mewn craig - gyda charreg ar ei gwaelod wedi'i erydu gan ben-gliniau addolwyr.

Nid y groes Geltaidd yw'r unig henebyn yn Nanhyfer. Credir fod y groes yn dyddio o'r ddegfed ganrif ond amcangyfrifir fod carreg arall ger mynedfa'r eglwys bum canrif yn hŷn na hi. Cerfiwyd arysgrif arni gan ddefnyddio dwy set o gymeriadau gwahanol. Yn Lladin, "Vitaliani Emereto" ac yn Ogam, "Vitaliani". Mae 'Emereto' yn deitl Rhufeinig anrhydeddus, ac felly mae'n debyg fod y garreg yn anrhydeddu person Rhufeinig (neu ddarpar Rhufienig) o bwys.

Os yn dyddio o'r bumed ganrif mae'n gyfoes â Dewi Sant, y credir ei fod wedi pasio heibio ar ei ffordd i'r Synod yn Llanddewi-Brefi. Yn ôl un stori gadawodd y groes Geltaidd ar ei ôl, ond nid oes unrhyw brawf o hynny. Fodd bynnag, credir fod Sant Brynach wedi sefydlu'r eglwys oddeutu 570, ac yn sicr roedd yn gyfoeswr o Dewi Sant.

Y Castell

Ar y bryn uwchben Nanhyfer mae olion castell mwnt a beili, oedd yn wreiddiol yn gastell Cymreig a gredwyd oedd yn bencadlys ffigurau megis Meurig, a nodir yn chwedlau'r Brenin Arthur, a Chuhelyn. Meddiannwyd y castell gan y Norman Robert Fitzmartin, arglwydd Cemaes, yn gynnar yn y 12fed ganrif, ac fe gryfhaodd y muriau a chreu'r adeiladwaith dwbl mwnt. Er yn adfail erbyn hyn, mae Castell Nanhyfer yn dal i ddominyddu'r ardal, gyda cheunant serth Afon Gaman yn ei hamddiffyn tua'r de ddwyrain. Er wedi'i guddio gan goed a rhedyn erbyn hyn, mae'r safle'n dangos yn glir fod y castell wedi bod yn un enfawr. Mae'r beili ar ffurf triongl ac roedd dau fur o bridd yn ei amddiffyn yn yr hen ddyddiau (oedd efallai yn olion hen gaer o'r oes haearn). Byddai'r beili wedi bod yn ddigon mawr i gynnig lloches i filwyr ac anifeiliaid, a chynnwys sawl adeilad pren.

Heddiw, mae Castell Nanhyfer yn dawel, ond mae'n dal yn enghraifft dda o gaer cyntefig, un o nifer o gaerau a ddefnyddiwyd gan Wiliam y Concwerwr i reoli ei deyrnas yn dilyn goresgyniad y Normaniaid.

Y Pentref

Yn ddiweddar dathlodd neuadd y pentref ei 20fed pen-blwydd. Yn y gorffennol gwasanaethodd fel ysgol yr ardal ac erbyn hyn mae'n gweithredu fel man cyfarfod a lleoliad amryw weithgareddau a digwyddiadau.

Neuadd y Pentref.

1. Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol

Sylwebaeth

Mae cymuned gref yn Nanhyfer - gyda thraddodiad o drefnu digwyddiadau lleol, yn cynnwys y sioe amaethyddol flynyddol. Nodwyd hynny yn y gweithdy cyntaf, yn cynnwys "cydweithio er lles pawb a'r pentref yn gyffredinol".

Ymhlith yr adeiladau pwysig, mae'r eglwys, neuadd y pentref, neuadd yr eglwys a thafarn y Trewern Arms. Yn ddiweddar gosodwyd toiled anabl yn neuadd yr eglwys.

Mae amryw grwpiau'n defnyddio'r adeiladau, yn cynnwys y Cyngor Cymuned, pwyllgor neuadd y pentref, pwyllgor sioe Nanhyfer, cymdeithas y pysgotwyr, cyngor plwyf yr eglwys, grŵp cwiltio, Clwb Syrffio ac Achub Bywyd, Trefdraeth, grwpiau crefyddol, grŵp celf, dawnswyr cylch a digwyddiadau tymhorol.

Gellid trefnu mwy o weithgareddau i ddefnyddio'r gwahanol gyfleusterau. Yn yr archwiliad sgiliau a hyfforddi awgrymwyd nifer o ddosbarthiadau newydd, yn cynnwys celf, cyfrifiaduron a'r Gymraeg. Mae digonedd o sgiliau yn lleol, yn cynnwys garddio, coginio, prosesu geiriau, siarad cyhoeddus a threfnu cyfarfodydd. Ar ben hynny, sgiliau traddodiadol megis ffermio, pysgota a hanes yr ardal.

Credir fod angen trefnu cyfleusterau a gofal cymunedol ar gyfer pobl mewn oed - "mae pawb yn nabod pawb ac yn helpu pan fo angen."

Cynigion:

- Gwella adeiladwaith neuadd y pentref – (angen amcangyfrif y costau)
- Gwella adeiladwaith neuadd yr eglwys (angen amcangyfrif y costau)
- Annog ymwybyddiaeth o anghenion pobl hŷn e.e.cymorth i siopa
- Clustnodi mannau parcio ychwanegol yn y pentref
- Nodi gweithgareddau a dosbarthiadau newydd i'w cynnal yn neuadd y gymuned
- Trefnu byrddau arddangos yn neuadd y pentref
- Gofyn y Cyngor Sir i ddiweddaru'r toiledau.

2. Cyfathrebu a Digwyddiadau

Sylwebaeth

Yn ogystal â'r sioe flynyddol, trefnir digwyddiadau rheolaidd i godi arian, fel ras hwyaid a gyrfaoedd chwist. Ar ben hynny, mae arddangosfa gelf flynyddol, cystadleuaeth aredig,

parti'r plant a noson tân gwyllt. Cynhelir ysgol Sul rheolaidd a bydd yr eglwys yn cynnal amryw weithgareddau, yn cynnwys grŵp pader.

Mae pobl am wella dulliau cyfathrebu a hyrwyddo'r ardal fel cyrchfan ar gyfer twristiaid. Roedd yr adnoddau lleol yn cynnwys cyfrifiaduron ac offer megis sganwyr ac argraffwyr. Byddent o werth os am gynhyrchu cylchlythyr.

Ar hyn o bryd, lledir gwybodaeth drwy gyfrwng hysbysfyrddau, hysbysiadau'r eglwys, posteri yn y dafarn, papurau newydd a llafar gwlad. Credwyd y dylid ffurfioli'r drefn wrth lunio cylchlythyr neu ddyddiadur.

Awgrymwyd y gallai cylchlythyr gynnwys amserau gwasanaethau'r eglwys; ymweliadau'r llyfrgell a siopau symudol ee dyn pysgod ac ati. Gallai hefyd gynnwys rhestr neu gyfeiriadur busnes, ac efallai hysbysebion er mwyn talu'r costau.

Yn ogystal, gellid datblygu gwefan i gynnwys copi o'r cylchlythyr. Mae buddion band eang eisoes wedi'i godi a rhai pentrefwyr am wybod mwy - at ddibenion cymunedol a busnes. Efallai byddai modd denu cymorth a chyllid cenedlaethol. Y prif rwystr yw'r pellter o'r gyfnewidfa.

Cynigion:

- Trefnu cyfarfod i sefydlu cylchlythyr/dyddiadur/gwefan cymunedol
- Cynllunio a chanfod lleoliad ar gyfer hysbysfwrdd gyda map a gwybodaeth leol
- Clustnodi mwy o bobl leol fydd yn barod i helpu i drefnu digwyddiadau.

3. Treftadaeth a Diwylliant

Sylwebaeth

Mae pobl yn ymfalchïo yn y nodweddion treftadol lleol megis adeiladau cofrestredig, yr eglwys a'r castell. Mae'r ywen "waedlyd" yn y fynwent, y groes Geltaidd, y bont a chroes y pererinion yn nodweddion amlwg tra bod eraill fel y deial haul yn llai enwog ac amlwg.

Cedwir traddodiadau cryf yn gysylltiedig â'r afon sy'n enwog am ansawdd yr eogiaid bydd pysgotwyr yn dal arni. Bydd pobl leol yn edrych ar ôl yr eglwys a'r fynwent ac maent yn boblogaidd gyda thwristiaid. Byddai'r gymuned yn hoffi clywed clychau'r eglwys unwaith eto.

Credir y dylid gwella'r arwyddion at ac o fewn y pentref ynghyd â gosod rhai i ddisgrifio nodweddion lleol. Dylid gosod gwybodaeth am y nodweddion hyn ar fap/hysbysfwrdd y gymuned ac mewn taflen (gweler y cynnig yn yr adran Cyfathrebu a Digwyddiadau uchod). Hyrwyddo'r ffaith fod yna eisoes lyfryn `Hanes Nanhyfer` a thaflen yn cyflwyno hanes yr eglwys. Dylid cynllunio'r hysbysfwrdd ar y cyd â phobl leol ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol, a gwahodd crefftwyr lleol i gynnig i wneud y gwaith.

Mae castell Nanhyfer, sy'n eiddo'r Cyngor Cymuned, yn un o'r enghreifftiau prin o gastell mwnt a beili sy'n dal mewn bodolaeth. Ym marn pobl leol nid yw'n cael ei hyrwyddo na'i ddefnyddio digon ac efallai gellid cynnal digwyddiadau a gwyliau ar y safle ee gŵyl Shakespeare awyr agored ac ati.

Cynigion

- Ffurfio grŵp i gynhyrchu taflen yn trafod pob safle hanesyddol lleol mewn un cyhoeddiad - bod yn ymwybodol o gyhoeddiadau sydd ar gael.
- Cynhyrchu byrddau dadansoddol gan ddefnyddio'r un wybodaeth
- Gwella arwyddion - cydweithio â chynllun y pentref
- Bwrw ati i adfer cloch yr eglwys ar sail y wybodaeth sydd eisoes wedi ei gasglu
- Castell - trefnu cyfarfod i drafod ei botensial
- Edrych ar y posibiliadau o drefnu arddangosfa o'r etifeddiaeth leol.

4. Amgylchedd, Gwella'r Pentref a Ynni

Sylwebaeth

Yn gyffredinol mae pawb yn cytuno fod plwyf Nanhyfer yn gorwedd mewn ardal hynod brydferth - mewn cwm coediog gydag afon yn rhedeg drwyddi, gyda bryniau'r Preseli ar un ochr a'r arfordir ar yr ochr arall.

Mae rhwydwaith o lwybrau a ffyrdd merlota yn lleol - rhai yn fwy poblogaidd nag eraill. Er enghraifft, mae'r llwybr rhwng Nanhyfer a Threfdraeth sy'n pasio heibio'r groes Geltaidd, yr eglwys a'r castell yn brysur iawn. Mae angen gwell arwyddion ar yr holl lwybrau ond dylid cynnal unrhyw arolwg ohonynt gyda chydweithrediad ffermwyr a pherchnogion tir lleol.

Credir fod angen torri nôl rhai perthi a choed er mwyn gwella golwg y pentref a'r golygfeydd, a byddai'n angen gwneud hynny gyda chymorth arbenigwyr. Cyfrifoldeb perchennog y tir yw trwsio'r mur gyferbyn neuadd y pentref a gallai hynny olygu mwy o waith nag y mae'n ymddangos. Mae'n debyg y byddai'r perchennog yn gwerthfawrogi cymorth gan y gymuned, ond yn gyffredinol credwyd fod gwariant ar bethau eraill yn fwy pwysig ar hyn o bryd. Efallai bydd rhaid gwneud gwaith i gryfhau mur y bont ei hun ac roedd rhai'n pryderu am uchder y mur gyferbyn y dafarn ers ei ailgodi.

Gallai cynllun i wella'r pentref helpu i nodi nifer o faterion ee arwyddion, safle ar gyfer hysbysfwrdd/map, seddi, maes parcio, gwelliannau amgylcheddol, parchu'r pentref fel y mae.

Mae arbenigwyr yn ymwybodol o Warchodfa Natur Llwyngoras ond gallai erthygl yn y cylchlythyr helpu i hysbysu pawb o'r ganolfan. Mae Coedlan Ty Canol yn warchodfa natur genedlaethol ac mae coedlannau gwerthfawr eraill yn yr ardal.

Caiff Traeth Mawr ei ystyried yn draeth syrffio da yn lleol ac mae yno Glwb Syrffio ac Achub Bywyd gweithgar. Mae yna ddiddordeb cyffredinol mewn materion gwarchod yr arfordir ac mae gwaith ar y gweill i geisio sicrhau statws Baner Las.

Credir y dylid darparu cyfleusterau i waredu baw cŵn ger y traeth ond ar hyn o bryd nid oes problem yn y pentref. Nid oedd pobl yn croesawu unrhyw ffactor a allai effeithio golwg naturiol y pentref.

Byddai melinau gwynt a thyrbinau trydan yn dod o dan reolaeth y Parc Cenedlaethol. Byddai rhannau anghysbell o'r arfordir yn cynnig safleoedd da ond byddai angen ymgynghori eang os am eu gosod o fewn ffiniau'r parc cenedlaethol.

Cynigion

- Astudiaeth i wella'r pentref - arwyddion, hysbysfwrdd - uchder mur yr afon, cadw'r pentref yn glir a chyflwyno mesurau gwella cyffredinol gan gynnwys clirio cwêd.
- Map hawliau tramwy cyhoeddus – byddai'n rhaid clirio'r llwybrau os am eu hysbysebu. Dylid cynnal arolygon mewn cydweithrediad â ffermwyr a thirfeddianwyr
- Gwella'r cysylltiad gydag Awdurdod y Parc Cenedlaethol
- Cynnal coetiroedd lleol ac annog mwy o blannu coed
- Gwarchodfa Natur Llwyngoras, efallai bydd modd sefydlu eraill yn yr ardal - cyllid i wella llwybrau a gosod bocsys adar ac ystlumod
- Er bod modd cael taflenni ac ati gan ganolfan groeso Trefdraeth, dylid darparu mwy o wybodaeth ar gyfer ymwelwyr yn Nanhyfer.

5. Economi lleol

Sylwebaeth

Amaeth yw sylfaen economi'r ardal, gyda thwristiaeth yn cyfrannu mwy dros y blynyddoedd diwethaf. Mae busnesau'r pentref yn cynnwys tafarn a garej.

Tir amaeth sy'n amgylchynu'r pentref ac mae ffermio'n gwneud cyfraniad sylweddol at gynnal yr ardal yn gyffredinol. Mae angen clustnodi mesurau a allai helpu i symbylu hyder a galluoedd yn yr ardal, gan arwain at ddulliau blaengar a sensitif o ddiogelu'r amgylchedd ac ymateb i anghenion pobl leol ac ymwelwyr (gweler Atodiad 1).

Mae rhan helaeth o'r pentrefwyr yn gweithio yn y dafarn, ar ffermydd lleol neu ym maes twristiaeth. Yn naturiol, mae rhai wedi ymddeol ac yn mwynhau llonyddwch yr ardal. Yn gyffredinol mae cyflogau'n isel ac o ganlyniad bydd llawer o bob ifanc yn gadael i fynd i golegau a phrifysgolion, ac yn cael hyd i waith tu allan i'r ardal. Fodd bynnag, bydd llawer yn dychwelyd yn y pen draw gan fod cymuned glos yn yr ardal.

Ar y cyfan mae'r bobl mor fwyn â'r pentref ei hun ac am i'r ardal barhau fel y mae – yn lled naturiol a heb elfennau masnachol gormodol. Dyna yw cryfder Nanhyfer; mae pobl yn ei hoffi fel y mae. Mae'r gymuned yn falch iawn o'u pentref a byddai'n rhaid edrych yn ofalus ar unrhyw gynigion i'w newid er mwyn sicrhau eu bod er lles y gymuned - yn awr ac yn y dyfodol. Llwyddwyd i wneud hynny dros ganrifoedd ac ni chroesewir newid er mwyn newid.

Yn lleol mae busnesau amaeth ac adeiladu, ffermydd a fferm wyddau, sawl busnes twristiaeth, bythynnod gwyliau, canolfan ferlota, siopau, meithrinfa goed, garej, garddwyr ac eraill. Yn ogystal, mae café, tafarn a gwesty, a rhai gwasanaethau e-fasnach.

Trafodwyd y posibilrwydd o gael band eang yn yr ardal yn helaeth, sef cysylltiad cyflym â'r rhyngrwyd sy'n hwyluso defnydd o'r we. Mae'n galluogi pobl i weithio o gartref, siopa ac astudio ar-lein, chwarae gêmau, mwynhau ffilmiau a miwsig, efasnach, sgwrsio mewn amser real a chynnal gwefannau.

Byddai'r buddion i'r ardal yn cynnwys:

- Cyfleoedd busnes newydd
- Cyfleoedd addysg
- Cymdeithasol
- Llywodraeth - ee gwaith papur ffermydd.

Mae dau opsiwn o dderbyn band eang (Broadband).

1. Diweddaru'r gyfnewidfa ffôn leol - os bydd digon o bobl yn cofrestru gyda BT o fewn ardal cyfnewidfa (01239), gellid ei diweddaru i gynnig band eang.

2. Lloeren a diwifrau - byddai cysylltiad lloeren yn ddrud ond yn gallu gweithio mewn unrhyw leoliad. Os yn cysylltu un cyfrifiadur canolog â'r rhyngrwyd, gellid rhannu'r cysylltiad hwnnw drwy gyfrwng rhwydwaith radio diwifrau.

Cynigion:

- Rhestru pob busnes lleol yn y cylchlythyr neu o fewn cyfeiriadur gwasanaethau
- Ymchwilio'r posibilrwydd o gael band eang yn yr ardal
- Ymchwilio potensial band eang e.e. cyllid gan y Cynulliad
- Darparu hyfforddiant yn lleol ee dosbarthiadau cyfrifiaduron
- Bwrw mlân â menter ardal i edrych ar y posibiliadau o gadw pobl ieuanc ac ymchwilio sut i fwyhau cyfleon ar eu cyfer yn gyffredinol, gan gynnwys cyflogaeth
- Cefnogi cyfleoedd twristiaeth na fydd yn bygwth natur a llonyddwch yr ardal.

6. Ffyrdd a Trafnidiaeth

Sylwebaeth

Mae diffyg gwasanaethau trafnidiaeth cyhoeddus yn rhwystr i bobl hŷn ac ifanc gan ei fod yn cyfyngu ar eu gallu i gymdeithasu a dysgu/dilyn cyrsiau. Mae hefyd yn rheswm arall dros drefnu mwy o gyrsiau lleol.

Dylid hybu'r gwasanaethau bws sydd eisoes yn bodoli (cylchlythyr) a gosod lloches bws yn Temple Bar. Byddai'n wych pe gallai'r Poppit Rocket alw heibio Nanhyfer.

Mae diogelwch ar y ffyrdd yn destun pryder, yn arbennig cyflymder ceir drwy'r pentref a'r gyffordd brysur i ymuno â'r heol fawr. Mae creu llwybrau seiclo o fewn yr ardal yn cael eu hystyried ar hyn o bryd.

Cynigion

- Ymchwilio'r potensial i wella gwasanaethau trafnidiaeth cyhoeddus/cymunedol
- Hysbysebu amserau bysys
- Edrych i osod cysgodfa bws yn Temple Bar
- Arolwg o gyflymder ceir a marcio'r heol ger y gyffordd
- Clustnodi cyfleoedd teithio ar gyfer pobl hŷn, yn cynnwys gwasanaethau ceir gwledig
- Ymchwilio'r posibilrwydd o gael y Poppit Rocket i alw heibio Nanhyfer.
- Sicrhau bod asiantaethau sy'n ymchwilio i lwybrau seiclo yn cydlynu â'r gymuned

7. Tai

Sylwebaeth

Mae pryder am y cynnydd yn nifer y cartrefi gwyliau a phrinder tai fforddiadwy ar gyfer pobl leol, yn arbennig pobl ifanc.

Awgrymwyd gwneud cais ar ran yr ardal gyfan i'r Gronfa Datblygu Cynaladwy (o dan reolaeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro) i gynnal cystadleuaeth i gynllunio:

Fforddiadwy	}	
Cynaladwy	}	Tai
Cynllun lleol	}	

Byddai cystadleuaeth o'r fath yn gyfle i benseiri lleol ddefnyddio'u profiad er mwyn ymateb i her benodol sy'n wynebu'r ardal. Yn ogystal, byddai angen sefydlu faint o angen sydd yn lleol am gartrefi cymunedol o'r fath.

Edrych ar arfer da wrth ystyried y galw am dai fforddiadwy yn lleol a fyddai'n lleihau effaith ar yr amgylchedd ac wedi eu cynllunio i fod yn gydymdeimladol tuag at y tirlun amgylchynol, y gymuned a'r diwylliant.

Cynigion

- Cymunedau lleol i ymchwilio i'r posibilrwydd o wneud cais i'r GDG (Cronfa Ddatblygu Gynaladwy) gyda chymorth PLANED ac asiantaethau priodol eraill.

ATODIAD 1

MENTER FFERMIO NANHYFER

Yn ddiweddar mae diwydiant amaeth Cymru wedi dioddef yn sylweddol, yn debyg i lawer o ranbarthau Ewrop, ac mae hynny wedi cael effaith andwyol ar incwm ac ysbryd teuluoedd fferm ac ar yr economi lleol.

Mae Clwb Ffermwyr Ifanc Eglwyswrw yn weithgar yn yr ardal gyda 50 aelod 10 - 26 oed yn byw o fewn 20 milltir i Eglwyswrw, ble byddant yn cwrdd bob nos Iau.

Awgrymir sefydlu Menter Ffermio Nanhyfer er mwyn:

- cydnabod rolau darparwyr cyfredol
- hybu cydweithredu
- cymell pobl i ddilyn arferion da a dysgu sgiliau busnes ac IT newydd er mwyn rheoli eu busnesau yn fwy effeithiol.

Gallai hefyd ystyried os oes angen cyfeirio pobl at yr amryw wasanaethau ymgynghori sy'n agored iddynt erbyn hyn – a sut i wella'r gwasanaethau hynny o fewn ardal o ffermydd bach.

Gwella agweddau:

- Sefydlu grwpiau trafod, meincnodi, gwerthuso busnesau, cynllunio ar gyfer y dyfodol, ymchwilio meysydd cydweithredu a ffynonellau incwm newydd.
- Cefnogi Clwb Ffermwyr Ifanc Eglwyswrw gyda'r nod o helpu plant ffermydd gyda'u haddysg, ac opsiynau gyrfaoedd a datblygu.
- Helpu ffermydd i wella'u busnesau drwy gyfrwng cynllun "Buddsoddi mewn Pobl". Byddai'n fanteisiol pan yn ceisio recriwtio staff, yn helpu pobl i ddeall oblygiadau cyfreithiol, trin pobl yn deg ac adeiladu ysbryd timau gwaith.
- Defnyddio potensial economaidd pobl ifanc, a meibion a merched fferm – sef ffermwyr y dyfodol.

Helpu ffermwyr i helpu eu hunain:

- Cyd-drefnu digwyddiadau i dynnu sylw at fesurau amgylcheddol newydd, a gweithgareddau hamdden a thwristiaeth newydd
- Cymell ffermwyr a pherchnogion tir i fuddsoddi mewn projectau ynni cynaladwy
- Hyrwyddo prosesu lleol a chynyddu gwerth cynnyrch yr ardal
- Trefnu seminarau i hysbysu ffermwyr o ddatblygiad Strategaeth Amaeth Cymru, newidiadau i bolisi amaeth Ewrop, rheolau lles anifeiliaid ac etifeddiaeth, delio gyda biwrocratiaeth (ARAD, Parc Cenedlaethol a'r Cyngor Cefn Gwlad), a datblygiadau ICT ac efasnach
- Datblygu cysylltiadau allweddol ym maes amaeth ee Cyswllt Ffermio, Awdurdod Datblygu, IGER, Gelli Aur, Coleg Technegol Sir Benfro a'r PBI.

Hyfforddiant: Cyd-drefnu a Darparu

Datblygu cysylltiadau gyda darparwyr hyfforddiant er mwyn trafod problemau/anghenion ffermydd teuluol (Hwlffordd yn rhy bell i ffwrdd). Tiwtoriaid i gynnal cyrsiau ar ffermydd neu leoliadau addas eraill a chryfhau cysylltiadau â Chylch Peirianwaith Sir Benfro.

Byddai cynllun gwaith Ffermio Nanhyfer yn cynnig yr isod i deuluoedd fferm:

- Gwella dealltwriaeth
- Gwella sgiliau
- Symbylu pobl i weithredu

Gallai helpu gyda'r isod –

- Datblygu mentrau newydd
- Cynyddu incwm
- Diogelu swyddi
- Creu swyddi newydd

Gallai Ffermio Nanhyfer gychwyn y rhaglen ddatblygu wrth sefydlu grwpiau trafod a chreu cronfa ddata neu frocer lleol er mwyn recriwtio neu drafod anghenion gwaith cyflogwyr gwledig. Gellid edrych am gyllid i gyflogi swyddog rhan amser i wneud y gwaith.

Byddai Ffermio Nanhyfer yn dwyn buddion i bawb wrth wella cystadleugarwch ac argyhoeddi ffermwyr ei bod yn werth bod yn rhan o'r fenter. Yr her fydd helpu ffermwyr yr ardal i newid cyfeiriad er mwyn diwallu anghenion defnyddwyr a llywodraethau yn fwy effeithiol.